COVID-19 Update: 26th May

In the latest COVID-19 update from Cardiff Council: a reminder of the areas having a garden waste collection this coming Saturday; free Llanover Hall Zoom family taster sessions; Hub staff supporting our communities; and Asbestos Team switch roles to deliver PPE.

Garden waste collection areas this coming Saturday

The areas of Cardiff that have their waste collected on a **Friday** will have a garden waste collection this coming **Saturday, 30th May**.

Residents are reminded that they must only put out garden waste for collection in their green wheelie bin or their reusable garden sacks.

Any additional garden waste, which is put in any other container, including plastic bags, will not be collected.

For questions and answers on the one-off garden waste collections during May, go to:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23726.html

Free Llanover Hall Zoom family taster sessions

Llanover Hall have free online family taster sessions on Zoom. Learn a new lockdown hobby with:

- Fun Family Origami, Wed May 27
- Create Amazing Geometrical Designs, Wed June 10.

Children must attend with an adult present.

Enrol:
https://www.adultlearningcardiff.co.uk

Hub staff supporting our communities

Throughout the past nine weeks, staff at the four core hubs that have remained open by appointment or for emergencies have been working hard at the frontline of Cardiff's communities to answer customers enquires and help those in need.

The outstanding service they have continued to deliver despite the COVID-19 crisis includes providing:

- Food and essentials parcels
- Green recycling and food waste bags
- E-resources on Facebook (more below)
- Answering calls received by the Adviceline

- Calling everyone who is shielded to ensure they have food and support they need

The teams have put together lock down activities including rhymetimes and Hands on History resources to give people a taster of the wealth of local history and heritage e-resources that are available and ‘how to' guides to help users get the best out of the online catalogue.

Adviceline
We've had more than 11,500 calls to our Adviceline since the start of the COVID-19 crisis from customers needing help accessing food and essential items, with benefits and income, help with debts and Into Work and Universal Credit advice.

If you know someone who needs help and who is not able to access the internet please pass on our Adviceline number 029 2087 1071. www.cardiff.gov.uk/adviceline

Food Parcels
One particular impact of the COVID-19 crisis is the increasing demand for basic food supplies, particularly to support our most vulnerable people, either those self-isolating or those suffering from the economic impact of the crisis.

Since the 20th of March 485 food parcels have been collected from our Hubs. This is a fantastic achievement and is a vital service for those who need them.

Cardiff Asbestos Team switch roles to deliver PPE supplies

In response to the coronavirus crisis, the Cardiff Asbestos Team have been redeployed to help Cardiff’s Health & Safety Team and the Hubs & Libraries Services to deliver vital PPE supplies.

The team have been collecting sanitisers, Covid-19 suitable cleaning supplies and PPE from suppliers such as Screentec, PK Safety, Adcock Janitorial and Catering Supplies and BCB International.

Cardiff’s Health & Safety team and Hubs & Libraries Services work hard every week sourcing necessary supplies for the people who need it to continue providing vital Council services. Once orders have been prepared the Cardiff Asbestos Team then deliver essential equipment and PPE to care homes, providers of domiciliary support and our hub schools.

Andrew Griffin, Chris Bolton and Paula Griffin usually carry out asbestos surveys of Council premises, manage asbestos information and provide asbestos advice and support to building managers. The team have been collecting sanitisers, Covid-19 suitable cleaning supplies and PPE from suppliers and delivering them. They are happy to adjust their roles and help keep Cardiff safe during the Covid-19 pandemic.

Diweddariad COVID-19: 26 Mai
Yn y diweddariad COVID-19 diweddaraf gan Gyngor Caerdydd: yr ardaloedd sy'n cael casgliadau gwastraff gardd dydd Sadwrn yma; mae Neuadd Llanofer sesiynau blasu ar-lein i'r teulu ar Zoom; staff hybiau yn cefnogi ein cymunedau; a Thîm

Asbestos Caerdydd yn newid rolau i gyflenwi cyflenwadau Cyfarpar Diogelu Personol.

Yr ardaloedd sy'n cael casgliadau gwastraff gardd dydd Sadwrn yma

Bydd yr ardaloedd yng Nghaerdydd y mae eu gwastraff yn cael ei gasglu ar **Ddydd Gwener** yn cael casgliad gwastraff gardd **ddydd Sadwrn yma, 30 Mai**.

Hoffem atgoffa preswylwyr y dylent roi gwastraff gardd allan i'w gasglu yn eu biniau olwynion gwyrdd neu eu sachau gardd amldro yn unig.

Ni fydd unrhyw wastraff gardd ychwanegol a roddir mewn unrhyw gynhwysydd arall, gan gynnwys bagiau plastig, yn cael ei gasglu.

I weld cwestiynau ac atebion am y casgliadau gwastraff gardd untro yn ystod mis Mai, ewch i:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23726.html

Mae Neuadd Llanofer sesiynau blasu ar-lein i'r teulu ar Zoom

Mae Neuadd Llanofer yn cynnal sesiynau blasu ar-lein i'r teulu ar Zoom. Dysgwch hobi newydd gyda:

- Origami Hwyliog i'r Teulu ddydd Mercher 27 Mai a chreu
- Dyluniadau Geometregol Anhygoel, ddydd Mercher 10 Mehefin.

Rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn.

Gofrestru:
https://www.adultlearningcardiff.co.uk/cy/

Staff hybiau yn cefnogi ein cymunedau

Drwy gydol y naw wythnos diwethaf, mae staff yn y pedwar hyb sydd wedi aros ar agor drwy apwyntiad neu ar gyfer achosion brys wedi bod yn gweithio'n galed ar y rheng flaen dros gymunedau Caerdydd yn ateb ymholiadau gan gwsmeriaid a helpu'r bobl hynny sydd ei angen.

Mae'r gwasanaeth rhagorol a gyflawnir ganddynt er gwaethaf argyfwng COVID-19 yn cynnwys y gwasanaethau canlynol:

- Parseli bwyd a hanfodion
- Bagiau ailgylchu gwyrdd a bagiau gwastraff bwyd
- E-adnoddau ar Facebook (mwy isod)
- Ateb galwadau a dderbynnir ar y Llinell Gyngor
- Ffonio pawb sy'n hunan-warchod i wneud yn siŵr bod ganddynt fwyd a'r cymorth sydd ei angen

Mae'r timau wedi llunio gweithgareddau ar gyfer y cyfnod cloi gan gynnwys amser odli ac adnoddau Hanes Ymarferol i roi rhagflas i bobl o'r cyfoeth o e-adnoddau hanes lleol a threftadaeth sydd ar gael a chanllawiau 'sut i' i helpu defnyddwyr i wneud yn fawr o'r catalog ar-lein.

Llinell Gyngor
Rydym wedi cael dros 11,500 o alwadau i'n Llinell Gyngor ers dechrau argyfwng COVID-19 gan gwsmeriaid sydd angen help i gael bwyd ac eitemau hanfodol, gyda budd-daliadau ac incwm, a hefyd help gyda dyledion a chyngor ar y gwasanaethau I Mewn I Waith a Chredyd Cynhwysol.

Os ydych yn nabod rhywun sydd angen help ac nad yw'n gallu defnyddio'r rhyngwyd rhowch ein rhif Llinell Gyngor iddo/iddi 029 2087
1071. www.caerdydd.gov.uk/llinellgyngor

Parseli Bwyd
Un o effeithiau penodol argyfwng COVID-19 yw'r galw cynyddol am gyflenwadau bwyd sylfaenol, yn benodol i gefnogi ein pobl fwyaf agored i niwed, naill ai'r rheiny sy'n hunan-ynysu neu'r rheiny sy'n dioddef o effaith economaidd yr argyfwng.

Ers 20 Mawrth mae 485 o barseli bwyd wedi eu casglu o'n Hybiau. Mae hwn yn gyflawniad gwych ac yn wasanaeth hanfodol i'r rheiny sydd ei angen.

Tîm Asbestos Caerdydd yn newid rolau i gyflenwi cyflenwadau Cyfarpar Diogelu Personol

Mewn ymateb i'r argyfwng coronafeirws, cafodd Tîm Asbestos Caerdydd eu hadleoli i helpu Tîm Iechyd a Diogelwch Caerdydd a'r Gwasanaethau Hybiau a Llyfrgelloedd i gyflenwi cyflenwadau CDP hanfodol.
Mae'r tîm wedi bod yn casglu nwyddau glanhau, cyflenwadau glanhau sy'n addas ar gyfer Covid-19 a CDP oddi wrth gyflenwyr fel Screentec, PK Safety, Adcock Janitorial and Catering Supplies a BCB International.

Mae Tîm Iechyd a Diogelwch Caerdydd a'r Gwasanaethau Hybiau a Llyfrgelloedd yn gweithio'n galed bob wythnos i gael hyd i gyflenwadau angenrheidiol i'r bobl sydd eu hangen er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol y Cyngor. Pan fydd yr archebion wedi'u paratoi, bydd Tîm Asbestos Caerdydd yna'n dosbarthu offer hanfodol a CDP i Gartrefi Gofal, darparwyr cymorth yn y cartref a'n Hysgolion Ardal.

Fel arfer bydd Andrew Griffin, Chris Bolton a Paula Griffin yn cynnal arolygon asbestos ar adeiladau'r Cyngor, yn rheoli gwybodaeth am asbestos ac yn darparu cyngor a chymorth ar asbestos i reolwyr adeiladu. Mae'r cyfnod cloi wedi golygu y caewyd llawer o'n hadeiladau a gohiriwyd pob gwaith adeiladu ond y rhai hanfodol. Bu'r tîm yn hapus i addasu eu rolau a helpu i gadw Caerdydd yn ddiogel yn ystod pandemig Covid-19.